ASA

# Adroddiad blynyddol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru

# 2011-12

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**
**Cyflawniadau yn 2011-12** ........ **2**
**Crynodeb o weithgareddau 2011-12** ........ **3**
Gweithgareddau adolygu ........ 3
Gweithgareddau cefnogi adolygiad ........ 3
Ymgysylltiad â'r myfyrwyr ........ 3
**Gweithgareddau adolygu** ........ **4**
Adolygiad Sefydliadol ........ 4
Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol ........ 7
Archwiliad o ddarpariaeth dramor ........ 7
Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru ........ 8
Adolygiad o Goleg Mewnosodedig ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol ........ 8
Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach (AU mewn AB) ........ 9
Ymchwiliadau i bryderon ........ 9
Mynediad i AU yng Nghymru 2011-12 ........ 9
**Gweithgareddau cefnogi adolygiad** ........ **11**
**Gweithgareddau datblygu a gwella** ........ **12**
Cefnogi gwelliant mewn addysg uwch yng Nghymru ........ 12
Ymgysylltiad â'r myfyrwyr ........ 12
Gweithgareddau gwella ........ 13
**Gweithgareddau cefnogi** ........ **15**
Cefnogi, monitro ac adrodd ar weithgareddau ASA ........ 15
**Edrych ymlaen at 2012-13** ........ **20**
**Atodiad A: Dadansoddiad o'r gwariant (2011-12)** ........ **22**

# Cyflwyniad

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) wedi cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru (CCAUC) ac Addysg Uwch Cymru (AUC) ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2009 hyd 31 Gorffennaf 2015. Mae'r CLG yn nodi cyfrifoldebau perthnasol y tri sefydliad ac yn dweud y byddent yn gweithio mewn partneriaeth ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Awst 2011 hyd 31 Gorffennaf 2012 ac yn esbonio sut mae ASA wedi cyflawni ei chyfrifoldebau.

Mae'r CLG yn nodi y bydd ASA yn darparu adroddiad i CCAUC ac AUC ar ddiwedd bob blwyddyn am gyfnod y cytundeb, ac y bydd hwn yn cynnwys:

- adroddiad ar gynnydd yn erbyn y rhaglen gwasanaethau ar gyfer 2011-12
- dadansoddiad o'r gwariant gan ddefnyddio penawdau rhestr daliadau Cymru (gwelwch Atodiad A).

# Cyflawniadau yn 2011-12

| **Gweithgaredd** | **Cwblhawyd: do, naddo neu'n rhannol** |
|---|---|
| Gwneud a darparu tri Adolygiad Sefydliadol, gan gynnwys hyfforddi timau adolygu a briffio sefydliadau | Do: gwelwch baragraffau 1 i 11 |
| Gwneud dau Ddilyniant Canol Cylchred Adolygu i'r Adolygiadau Sefydliadol, ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Morgannwg | Do: gwelwch baragraff 14 |
| Darparu cyngor a gweithredu gweithdrefnau ASA ar gyfer delio â Materion sy'n Achosi Pryder | Do: gwelwch baragraffau 28 a 29 |
| Datblygu dull adolygu ar gyfer adolygiad datblygiadol o Raddau Sylfaen yng Nghymru yn 2012-13 | Do: gwelwch baragraffau 23 i 25 |
| Darparu hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses Adolygiad Sefydliadol (Cymru) | Do: gwelwch baragraff 34 |
| Gweithio gyda CCAUC, AUC, yr Academi Addysg Uwch (AAU) a'r sector addysg uwch ar faterion sicrwydd ansawdd a materion gwella sy'n ymwneud yn benodol â Chymru | Do: gwelwch baragraffau 38 i 41 |
| Cefnogi Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE) ac ymgysylltiad myfyrwyr mewn prosesau ansawdd | Do: gwelwch baragraff 43 |
| Gweithio gyda CCAUC a'r sector addysg uwch mewn perthynas â'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau i Gymru | Do: gwelwch baragraff 41 |
| Ymweld yn rheolaidd â phob un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | Do: gwelwch baragraff 61 |
| Mynd i gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol yn cynnwys Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (SETQC) CCAUC a Grŵp Ansawdd a Datblygiad Academaidd Cymru | Do: gwelwch baragraff 61 |
| Cysylltu â chyrff perthnasol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, AAU, yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) Cymru | Do: gwelwch baragraff 61 |
| Helpu gydag ymholiadau gan y sector addysg uwch ac eraill yng Nghymru | Do: gwelwch baragraffau 55 a 56 |
| Sicrhau gallu sefydliadol i ddelio ag ymholiadau cyfrwng Cymraeg a bodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg | Do: gwelwch baragraffau 66 i 68 |

**Tabl 1: cyflawniadau yn erbyn y rhaglen o wasanaethau ar gyfer 2011-12**

# Crynodeb o weithgareddau 2011-12

## Gweithgareddau adolygu

- Gwnaeth ASA dri Adolygiad Sefydliadol, a chafwyd beirniadaethau o 'hyder' ymhob agwedd o'r adolygiadau, heblaw mewn un achos lle cafwyd beirniadaeth o 'hyder cyfyngedig' am ddarpariaeth gydweithredol.
- Canfu'r Adolygiadau Sefydliadol 13 maes o arfer da a 28 argymhelliad am wella'r rheolaeth ar ansawdd a safonau academaidd.
- Gwnaeth ASA ddau ddilyniant canol cylchred adolygu i'r Adolygiadau Sefydliadol, ac o ganlyniad cafwyd adroddiadau i'r sefydliadau a CCAUC.
- Yn dilyn ymchwiliad o dan Gynllun Pryderon ASA i'r rheolaeth ar safonau ac ansawdd academaidd yn 2010-11, mae ASA wedi monitro gweithrediad cynllun gweithredu Prifysgol Cymru.
- Yn 2011-12, gwnaeth ASA ymchwiliad llawn o dan ei Chynllun Pryderon o Brifysgol Cymru a'i phartner cydweithredol, ac o ganlyniad i hwn cyhoeddwyd adroddiad a chafwyd chwe cham gweithredu dilynol.
- Cynhaliwyd adolygiad ail-drwyddedu Asiantaeth Dilysu Mynediad llawn yn Agored Cymru. Roedd hwn yn cynnwys beirniadaethau am risg a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Awst 2012.
- Cynhaliwyd dau Adolygiad o Goleg Mewnosodedig ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol mewn colegau mewnosodedig wedi'u seilio yng Nghymru.

## Gweithgareddau cefnogi adolygiad

- Cyhoeddodd ASA lawlyfr am ddull diwygiedig yr Adolygiad Sefydliadol. Mae'r dull diwygiedig yn gwella agweddau sicrhau ansawdd ac agweddau gwelliant yr Adolygiad Sefydliadol.
- Cafwyd ymweliadau archwilio neu drafodaethau anffurfiol gyda dau sefydliad mewn perthynas â phwerau dyfarnu graddau ymchwil.
- Cyhoeddodd ASA ei llawlyfr am ddull yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru ar gyfer 2012-13. Yn ategol i hwn cynhaliwyd digwyddiad briffio i'r holl ddarparwyr addysg uwch a cholegau addysg bellach sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad.
- Ym mis Ionawr, cynhaliodd ASA ddigwyddiad hyfforddi i 12 adolygwr, tri adolygwr sy'n fyfyrwyr a thri hwylusydd sefydliadol, ar gyfer adolygiadau yng ngwanwyn a haf 2012.
- Datblygodd ASA ei dull strategol o wella ansawdd a chytuno arno gyda grwpiau sector addysg uwch Cymru. Bydd hwn yn creu dull o wella ansawdd sydd wedi'i gydlynu'n well.

## Ymgysylltiad â'r myfyrwyr

- Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE) yw'r cyfrwng o hyd i wthio ymlaen waith ASA i ymgysylltu â'r myfyrwyr yng Nghymru. Cefnogodd ASA ail lansio WISE yn rhan o agwedd gydweithredol tuag at ymgysylltiad myfyrwyr yng Nghymru.
- Mae ASA yn dal i roi cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn Adolygiad Sefydliadol ac Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi canllawiau i fyfyrwyr, cefnogi grwpiau o fyfyrwyr a darparu cefnogaeth un-i-un i gynrychiolwyr myfyrwyr.

# Gweithgareddau adolygu

## Adolygiad Sefydliadol

1 Yn 2011-12, gwnaeth ASA dri Adolygiad Sefydliadol:

- Prifysgol Aberystwyth - yr wythnos yn cychwyn 30 Ebrill 2012
- Prifysgol Bangor - yr wythnos yn cychwyn 14 Mai 2012
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant - yr wythnos yn cychwyn 11 Mehefin 2012.

2 Cyhoeddwyd adroddiadau'r adolygiadau yma ym misoedd Hydref a Thachwedd 2012. Mae'r feirniadaeth, yr argymhellion a'r nodweddion o arfer da i'w gweld isod.

### Prifysgol Aberystwyth

3 **Beirniadaeth:** Hyder yn y rheolaeth ar safonau ac ansawdd, hyder cyfyngedig yn y rheolaeth ar safonau mewn darpariaeth gydweithredol.

4 **Nodweddion o arfer da:**

- y cysylltiadau cryf mewn adrannau academaidd rhwng gwaith ymchwil, addysgu a dysgu'r myfyrwyr
- lledaenu arferion da mewn dysgu ac addysgu, yn enwedig dysgu wedi'i wella gan dechnoleg
- y gefnogaeth a'r datblygiad sydd ar gael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig
- dull integredig yr uwch-reolwyr academaidd o ostwng anghysonderau ym mhrofiad dysgu'r myfyriwr
- yr ymrwymiad i gydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu
- y datblygiad a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff academaidd.

5 **Argymhellion:**

- adolygu cymhlethdod rheolau, rheoliadau a strwythurau rhaglen i sicrhau mwy o gydraddoldeb ym mhrofiad y myfyrwyr
- sicrhau bod manylebau rhaglenni a gyhoeddir ar y we yn gyflawn ac yn gyfredol
- darparu goruchwyliaeth ganolog ar effaith newid cronnol ar raglenni
- adolygu'r broses gymeradwyo ar gyfer darpariaeth dysgu o bell, gan dalu sylw dyledus i'r *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch* (*Cod ymarfer*), *Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)*
- darparu a gweithredu arweiniad gweithdrefnol cynhwysfawr ar ddarpariaeth partneriaeth gydweithredol
- sicrhau bod y Brifysgol a'i phartneriaid yn cyhoeddi gwybodaeth gywir am ddarpariaeth gydweithredol
- datblygu a chyhoeddi cofrestr gynhwysfawr o weithgareddau partneriaeth gydweithredol
- gwneud gwell defnydd o ddata gwybodaeth rheoli i fonitro perfformiad myfyrwyr
- sicrhau bod yr holl ganlyniadau dysgu'n adlewyrchu'n briodol *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)
- gwneud adolygiadau rheolaidd o'r polisi derbyn.

## Prifysgol Bangor

6 **Beirniadaeth:** Hyder yn y rheolaeth ar safonau ac ansawdd.

7 **Nodweddion o arfer da:**

- gwaith Canolfan Dyslecsia Miles, lle mae ymchwil wedi gwella'r ddarpariaeth cymorth ar draws y Brifysgol a thu hwnt
- y Cynllun Arweinwyr Cyfoed, sy'n rhoi cyflwyniad rhagorol i fywyd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor
- gwaith Canolfan Bedwyr i wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

8 **Argymhellion:**

- adolygu cyfansoddiadau, atebolrwydd a gweithrediad grwpiau a phwyllgorau, ynghyd â natur ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt a chanddynt, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth y Senedd ar yr ystod lawn o ddarpariaeth academaidd
- adolygu effeithiolrwydd academaidd digwyddiadau ail-ddilysu lle mae nifer fawr a/neu amrywiaeth mawr o raglenni'n cael eu hystyried
- sicrhau bod yr holl raglenni wedi'u halinio gyda'r meincnodau pwnc perthnasol
- sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson yn llawlyfrau'r myfyrwyr
- sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr drwy wefan gyfan y Brifysgol yn gywir ac yn gyfredol
- ystyried sut y gall adlewyrchiad pellach o adroddiadau arholwyr allanol ddigwydd ar lefel ysgol neu goleg
- hwyluso'r broses o fabwysiadu gofynion y Brifysgol am gysondeb mewn arferion asesu
- parhau i ddatblygu a lledaenu meini prawf i ddiffinio ysgolheictod, gan adeiladu ar y llwybrau dyrchafu y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ar gyfer staff addysgu
- adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ysgolion a cholegau i wella ymgysylltiad y myfyrwyr â nhw
- ystyried cyflwyno gwerthusiad systematig o ddarpariaeth y Brifysgol o gymorth academaidd.

## Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

9 **Beirniadaeth:** Hyder yn y rheolaeth ar safonau ac ansawdd.

10 **Nodweddion o arfer da:**

- mae'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn gynhwysfawr, mae'r staff yn cyfranogi'n helaeth yn ei ddatblygiad a'i ddiweddariad, a chyfathrebir y newidiadau'n flynyddol yn ystod yr Wythnos Datblygiad Staff
- mae'r Brifysgol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gynnwys y corff myfyrwyr yn natblygiad y sefydliad newydd
- mae ystod o ddogfennau arweiniad wedi'u teilwra i grwpiau penodol o fyfyrwyr ac maent yn gynhwysfawr.

11 **Argymhellion:**

- sicrhau bod prosesau cymeradwyo rhaglenni'n cynnwys y gofyniad i gyflwyno manylebau rhaglenni mewn ffurf eglur a chyson
- sicrhau cydymffurfiad â'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd mewn perthynas â rhoi adborth amserol am yr asesiad ac yn darparu'r holl raglenni dysgu o bell o fewn y fframwaith a'r amserlenni y cytunwyd arnynt
- darparu cyfresi cyson ac y cytunwyd arnynt o wybodaeth rheoli ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni, a sicrhau y defnyddir y wybodaeth yma'n gyson i hwyluso dadansoddiadau ystyrlon a chymaradwy o berfformiad myfyrwyr
- cyhoeddi'r gofrestr gydweithredol ar y wefan erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf
- sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol yn hygyrch i'r holl fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf
- sicrhau proses gyson ar gyfer penodi, hyfforddi a chefnogi cynrychiolwyr myfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol (myfyrwyr rhan amser, dysgu o bell ac ôl-raddedig) ar draws y campysau i gyd
- adolygu effeithiolrwydd yr adnoddau dysgu ac unrhyw oblygiadau i ddysgu'r myfyrwyr
- darparu hyfforddiant ffurfiol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig cyn addysgu a sicrhau fod pob aelod o staff sy'n newydd i addysgu mewn addysg uwch yn gwneud cymhwyster priodol.

## Gweithgareddau'r adolygiad dilyniant yn 2011-12: Prifysgol Cymru

12 Yn dilyn cyhoeddi tri adroddiad am Brifysgol Cymru ym mis Mehefin 2011, gweithiodd ASA yn agos â'r Brifysgol ar ei chynllun gweithredu, sy'n rhoi manylion y gweithredoedd a gwblhawyd a'r cynnydd a wnaed, ac mae hwn wedi'i fonitro drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng y Brifysgol a swyddogion ASA.

13 Cyfarfu ASA â Phrifysgol Cymru ar y dyddiadau a ganlyn:

- 29 Tachwedd 2011 (Caerloyw)
- 10 Ionawr 2012 (Caerdydd)
- 28 Mawrth 2012 (Caerdydd)
- 1 Mehefin 2012 (Caerdydd)
- 3 Gorffennaf 2012 (Caerdydd).

## Dilyniant canol cylchred adolygu

14 Tua thair blynedd ar ôl cwblhau ei Adolygiad Sefydliadol, mae'n rhaid i sefydliad gyflwyno adroddiad adolygu canol cylchred i ASA, gan roi sylwadau ar y datblygiad a gafwyd ers yr adolygiad blaenorol ac ar ddatblygiadau perthnasol eraill. Mae swyddogion ASA yn ymweld â'r sefydliad i drafod materion a godwyd yn yr adroddiad, ac mae'r ymweliad hefyd yn rhoi cyfle i ddarllen dogfennaeth berthnasol ar reolaeth y sefydliad o ansawdd a safonau academaidd. Yn dilyn yr ymweliad, mae ASA yn rhoi adroddiad i'r sefydliad ac i CCAUC. Yn 2011-12, cafwyd Dilyniannau Canol Cylchred Adolygu ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Morgannwg. Cynhaliwyd yr ymweliadau ym mis Mehefin 2012, a dosbarthwyd yr adroddiadau terfynol i CCAUC a'r sefydliadau ym mis Medi 2012.

### Diwygiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol yn 2011-12

15 Ym mis Tachwedd 2011, derbyniodd ASA fanyleb gan CCAUC am y newidiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol (Cymru), i'w gweithredu o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2012-13.

16 Trafodwyd a chytunwyd ar y diwygiadau mewn cyfarfod o Is-grŵp Asesu a Gwella Ansawdd CCAUC (QAESG) (19 Mawrth 2012). Cyhoeddwyd y llawlyfr diwygiedig ym mis Mehefin 2012 ac mae ar gael ar: www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/adolygiad-sefydliadol-Cymru-llawlyfr-2012.aspx.

### Digwyddiad briffio sefydliadol i sefydliadau gydag adolygiadau yn 2012-13

17 Mae digwyddiad briffio wedi'i gynllunio ar gyfer mis Ebrill 2013 i sefydliadau sy'n cael Adolygiad Sefydliadol yn 2012-14. Y sefydliadau sy'n cymryd rhan yw: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe.

## Pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol

18 Gwnaeth ASA ymchwiliad ar ymweliad â Phrifysgol Glyndŵr mewn cysylltiad â chais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil, sydd wedi'i ohirio ar hyn o bryd i aros am yr Adolygiad Sefydliadol sydd ar y gweill yn y Brifysgol.

19 Mae trafodaethau anffurfiol wedi'u cynnal am bwerau dyfarnu graddau ymchwil i Brifysgol Cymru, Casnewydd.

## Archwiliad o ddarpariaeth dramor

### Prosiect Addysg Trawswladol (TNE) Tsieina 2012

20 Wrth ddewis y sampl o sefydliadau yn Tsieina ar gyfer prosiect Addysg Trawswladol Tsieina, ceisiodd ASA gyfleu'r amrywiol fathau o bartneriaethau neu gysylltiadau eraill gyda sefydliadau addysg uwch y DU (er enghraifft, campysau tramor), a chyrsiau ôl-raddedig yn ogystal â rhai israddedig. Mae ASA wedi cynnwys Prifysgol Cymru, am ei bod yn un o'r sefydliadau gyda'r nifer uchaf o fyfyrwyr yn Tsieina. Fodd bynnag, mae ASA wedi dewis astudiaeth achos yn hytrach nag adolygiad am fod adroddiadau tramor diweddar am Brifysgol Cymru, yn ogystal ag Adolygiad Sefydliadol gweddol ddiweddar.

21 Mae prosiect Addysg Trawswladol Tsieina yn cynnwys pedwar cam: casglu gwybodaeth, dadansoddiad pen desg, yr ymweliad adolygu, ac adrodd. Mae'r ddau gam cyntaf yn gyflawn ac mae paratoadau ar waith ar gyfer yr ymweliad adolygu â Tsieina a fydd yn digwydd o 26 Tachwedd hyd 7 Rhagfyr 2012. Mae'r tîm adolygu'n cynnwys pum adolygwr a phedwar aelod o staff ASA. Bydd sefydliad cymar ASA yn Tsieina yn gwneud gwaith yr arsyllwr yn rhai o'r ymweliadau adolygu.

22 Yn gyffredinol, bydd ymweliadau â 13 o sefydliadau yn Tsieina. Fel arfer, bydd ASA yn cyhoeddi adroddiadau adolygiad unigol (10), astudiaethau achos (pump) ac adroddiad trosolwg.

## Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru

23 Datganodd cylchlythyr CCAUC W10/29HE, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, fwriad CCAUC i gomisiynu Adolygiad Datblygiadol o Raddau Sylfaen er mwyn hysbysu datblygiad y cymwysterau yma ac asesu ansawdd y ddarpariaeth a ariennir yn 2012-13.

24 Yn haf 2011, cychwynnodd ASA weithio ar ddatblygu'r dull adolygu yn unol â gofynion CCAUC. Gwelwch yr amserlen ar gyfer y gweithgareddau allweddol a'r cerrig milltir isod.

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Datblygu'r Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru | Mawrth 2011-Hyd 2011 |
| Ymgynghoriad anffurfiol ar y Llawlyfr Graddau Sylfaen | Tach/Rhag 2011 |
| Ymgynghoriad ffurfiol ar y Llawlyfr Graddau Sylfaen | Chwefror 2012 |
| Yr ymateb i'r ymgynghoriad | Ebrill 2012 |
| Amserlennu adolygiadau a hysbysu colegau | Mai 2012 |
| Cwblhau'r Llawlyfr Graddau Sylfaen | Mehefin 2012 |
| Digwyddiad briffio ar gyfer sefydliadau addysg uwch a phartneriaid (ee colegau addysg bellach) | Gorffennaf 2012 |
| Cyhoeddi'r Llawlyfr Graddau Sylfaen | Medi 2012 |
| Cais am ddata addysg uwch (nifer y myfyrwyr, cymwysterau targed, dulliau mynychu) i hysbysu nodiadau briffio | Tach/Rhag 2012 |
| Y sefydliadau addysg uwch cyntaf i gael eu hadolygu'n cyflwyno hunanwerthusiad, cyflwyniad y myfyrwyr a dogfennaeth gefnogol i'w hadolygu | Tach-Chwe 2013 |
| Mae cyfarfod cychwynnol yn digwydd (ymhob sefydliad) dan arweiniad y cydlynydd adolygiad | Mawrth/Ebrill 2013 |
| Ymweliadau adolygu Graddau Sylfaen | Mai/Mehefin 2013 |
| Cwblhau'r Adroddiadau Graddau Sylfaen (ar yr amod nad oes angen ail ymweliad) | Medi/Hyd 2013 |

**Tabl 2: amserlen ar gyfer datblygu'r Adolygiad o Raddau Sylfaen**

## Adolygiad o Goleg Mewnosodedig ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

25 Cynhaliwyd dau Adolygiad o Goleg Mewnosodedig ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (ECREO) mewn colegau mewnosodedig wedi'u seilio yng Nghymru. Dyma oedd y ddwy ganolfan a adolygwyd:

- Navitas UK Holdings Ltd, Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe (ICWS) (wedi'i seilio ym Mhrifysgol Abertawe): www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/ECREO-ICWS-12.aspx
- Bellerbys Educational Services (Study Group UK), Wales International Study Group (wedi'i seilio ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd): www.qaa.ac.uk/institutionreports/reports/pages/ECREO-Wales-International-12.aspx.

## Addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach (AU mewn AB)

### Adolygiad o AU a ariennir yn uniongyrchol mewn AB

26 Yng nghyfarfod cynnydd CLG ar 18 Ionawr 2012, cytunwyd i ohirio unrhyw ddatblygiad pellach o ddull adolygu ar gyfer AU mewn AB hyd nes bo Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hadolygiad o addysg bellach. Ar 19 Mawrth 2012, dywedodd yr Is-grŵp QAESG y dylai unrhyw ddull o adolygu AU mewn AB yn y dyfodol alinio gyda'r Adolygiad Sefydliadol (Cymru). Yn y cyfarfod CLG ar 10 Gorffennaf 2012, edrychwyd eto ar y mater a chytunwyd i aros nes y cyhoeddir adolygiad Llywodraeth Cymru o Addysg Bellach, sydd i ddod allan ym mis Rhagfyr 2012, cyn cymryd unrhyw gam gweithredu pellach. Fodd bynnag, mae'n annhebyol y bydd unrhyw adolygiad ASA yn digwydd cyn 2014-15.

### Y Rhwydwaith AU mewn AB

27 Aeth swyddogion ASA i gyfarfodydd y Rhwydwaith AU mewn AB, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, ar 24 Chwefror a 7 Hydref 2011.

## Ymchwiliadau i bryderon

28 Yn 2011-12, gwnaeth ASA ymchwiliad llawn o un sefydliad yng Nghymru o dan ei Chynllun Pryderon. O ganlyniad i'r ymchwiliad i Brifysgol Cymru a'i ddilysiad o gyrsiau a ddarperir gan Ysgol Busnes a Chyllid Llundain a Finance & Business Training Ltd, mae datganiad wedi'i gyhoeddi:
www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Pages/pryderon-prifysgol-Cymru-FBT-LSBF.aspx.

29 Argymhellodd ASA bod Prifysgol Cymru'n:

- cryfhau ei phrosesau monitro yng nghyswllt arferion cofrestru myfyrwyr sefydliadau y mae'n cydweithio â nhw
- cryfhau ei phrosesau monitro yng nghyswllt gwefannau sefydliadau y mae'n cydweithio â nhw
- sefydlu a gorfodi gofynion sylfaenol o ran darparu adnoddau llyfrgell ac adnoddau dysgu eraill yng nghampysau pob sefydliad y mae'n cydweithio ag ef
- sicrhau bod yr holl sefydliadau cydweithredol yn parhau i fod yn addas (gyda chyfeiriad arbennig at eu parhad, neu beidio, i gyflawni eu hymrwymiadau cytundebol)
- cymeradwyo, yn ffurfiol ac ymlaen llaw, pob aelod o staff a gyflogir i addysgu ei rhaglenni a mynegi ei phenderfyniadau mewn modd clir ac amserol i'r sefydliad cydweithredol dan sylw
- rhoi cynllun gweithredu i ASA cyn pen chwe wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## Mynediad i AU yng Nghymru 2011-12

30 Mae *Ystadegau Allweddol 2012* ASA ar Fynediad i AU yn dangos roedd 2,780 o ddysgwyr ar gyrsiau Mynediad i AU yng Nghymru yn 2010-11 (sef cynnydd o 280 ar ffigur y flwyddyn flaenorol). Cynigiwyd 85 o gyrsiau (pedwar yn fwy nag yn 2009-10) gan yr 20 darparwr Mynediad i AU yng Nghymru.

31 Mae ASA yn monitro Asiantaethau Dilysu Mynediad (AVA) drwy adrodd blynyddol ac adolygiadau cyfnodol. Cafodd yr adroddiad hunanwerthusiad blynyddol sydd wedi'i gyflwyno gan Agored Cymru (yr un AVA yng Nghymru) ar ei weithgaredd 2010-11 ei

gymeradwyo ym mis Ionawr 2011. Roedd yr adborth am adroddiad yr AVA yn cynnwys tri argymhelliad a phum mater i dderbyn sylw.

32 Ym mis Ebrill 2012, cafodd Agored Cymru adolygiad ail-drwyddedu AVA llawn. Dyma oedd y cyntaf mewn cylch newydd o adolygiadau a ddefnyddiodd gyfres ddiwygiedig o feini prawf a dull diwygiedig, gyda chanlyniadau diwygiedig posibl (gan gynnwys beirniadaeth am lefel risg). Mae Bwrdd ASA yn gwneud penderfyniad am adnewyddu trwydded yr AVA ar sail y feirniadaeth am lefel risg. Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad (ARLC) a chymeradwyaeth o'r penderfyniad trwyddedu gan y Bwrdd, cyhoeddir yr adroddiadau ar y wefan Mynediad i AU.

33 Yn 2011-12, adolygodd ASA weithrediad manyleb presennol y Diploma Mynediad i AU yng Nghymru a Lloegr, yn nhermau maint ac arwyddocâd yr amrywiaeth mewn gofynion ar gyfer cyflawni'r cymhwyster. Roedd ymchwil ASA yng Nghymru'n cynnwys trafodaethau un-i-un gydag Agored Cymru; un o gyfres o drafodaethau bord gron, a gynhaliwyd yn Llandrindod (a fynychwyd gan 11 cynrychiolydd o addysg uwch, 11 o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, a phum cynrychiolydd o Agored Cymru); cyfarfod ar gyfer staff derbyn mewn addysg uwch (a fynychwyd gan gynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd); ac arolygon myfyrwyr, darparwyr a staff derbyn addysg uwch. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil yma wedi arwain at benderfyniad gan y Pwyllgor ARLC y dylid adolygu manyleb y cymwysterau cyfredol, ac mae'r gwaith datblygu yn y maes yma'n flaenoriaeth uchel i waith ASA mewn Mynediad i AU yn 2012-13.

# Gweithgareddau cefnogi adolygiad

## Hyfforddiant i adolygwyr ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol

34 Ar 19 Ionawr 2012, cynhaliodd ASA ddigwyddiad hyfforddi i dimau adolygu a hwyluswyr sefydliadol ar gyfer adolygiadau yng ngwanwyn a haf 2012. Roedd hyn yn cynnwys 15 adolygwr (yn cynnwys tri adolygwr sy'n fyfyrwyr) a thri hwylusydd sefydliadol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniad gan AUC ar y polisi addysg uwch yng Nghymru.

## Monitro a gwerthuso'r Adolygiad Sefydliadol

35 Yn rhan o werthusiad parhaus ASA o Adolygiad Sefydliadol (Cymru), gofynnir i adolygwyr, ysgrifenyddion adolygiad a sefydliadau gwblhau holiaduron gwerthuso. Yn 2011-12, cynhyrchodd Tîm Ymchwil, Gwybodaeth ac Ymholiadau ASA adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau'r holiadur o dri adolygiad. Derbyniwyd cyfanswm o bump ymateb a chafwyd bod lefelau boddhad cyffredinol yr adolygwyr yn uchel, gyda 95 y cant o'r ymatebion gan y timau adolygu'n gadarnhaol.

36 Mae'r mwyafrif o'r materion a bennwyd yn sylw gan un adolygwr fel arfer, ac felly nid yw'n cyfeirio at faterion ehangach naill ai o fewn y timau nac ar draws y gwahanol dimau. Ymysg y materion a godwyd roedd:

- cynllunio ac amserlennu yn ystod yr ymweliad adolygu
- rôl yr hwylusydd sefydliadol
- cyfathrebu mewnol rhwng y tîm

37 Bydd ystyriaeth bellach o'r gwerthusiad o'r canlyniadau'n digwydd yn y cyfarfod CLG rhwng ASA, CCAUC ac AUC yng ngwanwyn 2013.

# Gweithgareddau datblygu a gwella

## Cefnogi gwelliant mewn addysg uwch yng Nghymru

38 Ym misoedd Medi a Hydref 2011, adolygodd ASA ei dull o gefnogi gwelliant mewn addysg uwch yng Nghymru a chymerodd y cynigion a gafwyd o ganlyniad i'r adolygiad, er mwyn cael dull mwy integredig a chrwn o weithio gyda sector addysg uwch Cymru, at CCAUC, AAU, AUC, ac hefyd at Grŵp Llywio Cyfeiriadau'r Dyfodol a'r arweinwyr llinyn gwaith. Parhaodd y trafodaethau hyn gyda rhanddeiliaid hyd fis Mai 2012, pan gafwyd cytundeb gyda'r holl bartneriaid ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r dull a gynigiwyd gan ASA.

39 Mae ASA yn datblygu Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU i ddisodli'r Seilwaith Academaidd. Cefnogir adolygiad pob Pennod gan grwpiau cynghori sydd â chynrychiolaeth addysg uwch yng Nghymru, a digwyddiadau ymgynghori.

40 Mae'r ymgynghoriadau yma'n ddigwyddiadau drwy'r DU gyfan, felly mae'n nod gan ASA i ddosbarthu'r digwyddiadau'n ddaearyddol er mwyn hybu presenoldeb a'r gyfranogaeth fwyaf posib gan y pedair gwlad. Rhwng Awst 2011 a Gorffennaf 2012, cynhaliodd ASA digwyddiadau yn ymwneud â:

- *Pennod B5: Ymgysylltiad â'r myfyrwyr*
- *Pennod B11: Graddau ymchwil*
- Rhan C: Gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch (Caerdydd, 30 Ionawr 2012)
- *Pennod B3: Dysgu ac addysgu* (Caerdydd, 21 Mehefin 2012)
- *Pennod B10: Rheoli trefniadau cydweithredol* (Caerdydd, 2 Hydref 2012)

### Cefnogaeth ASA i Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

41 Yn 2011-12, cefnogwyd y FfCChC gan ASA drwy bresenoldeb swyddogion ASA yng:

- nghyfarfod y pum gwlad, 6 i 7 Medi 2011
- Grŵp Cydlynu Ewrop-DU, 5 Hydref 2011
- Fforwm Cytundeb Cyffredinol Credydau, 8 Rhagfyr 2011
- cyfarfod interim y pum gwlad, 21 Mehefin 2012.

## Ymgysylltiad â'r myfyrwyr

### Ymchwil UCM/ASA

42 Yn rhan o bartneriaeth ASA gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM), cynhaliwyd prosiect ymchwilio ar brofiad y myfyrwyr trwy gydol 2011-12. Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar brofiad dysgu'r myfyriwr. Mae'r ymchwil drwy'r DU gyfan ac mae wedi cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o grwpiau ffocws. Cafwyd dau o'r grwpiau yma yng Nghaerdydd, a daeth myfyrwyr o Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Caerdydd iddynt i gynrychioli amrywiaeth o gyrsiau, yn ogystal â myfyrwyr rhan amser, aeddfed, ôl-raddedig a rhyngwladol. Mae pedwar adroddiad byr wedi'u cyhoeddi ar wefan ASA erbyn hyn: www.qaa.ac.uk/partners/students/projects/pages/strand-1.aspx.

### Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru (WISE)

43 Ail lansiwyd WISE yn fuan yn 2012. Mae'r fenter hon yn parhau i fod yn rhagweithiol ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru; mae'r fenter wedi cyhoeddi ei datganiad

diweddaraf erbyn hyn. Mae ASA wedi ymrwymo i Adolygiadau Sefydliadol sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr, gydag adolygwyr sy'n fyfyrwyr ar bob tîm.

### Adolygiadau Sefydliadol ac Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru 2012-13

44 Mae ASA yn parhau i gefnogi undebau'r myfyrwyr sy'n cynhyrchu cyflwyniadau ysgrifenedig y myfyrwyr ar gyfer y dulliau adolygu hyn. Mae arweiniad cyflawn i brif gynrychiolwyr myfyrwyr yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi.

### AAU Cymru - y llinyn Myfyrwyr fel Partneriaid

45 Mae ASA wedi helpu undebau'r myfyrwyr i gynhyrchu astudiaethau achos i rannu arfer da mewn perthynas â myfyrwyr fel partneriaid. Lansiwyd y gwaith yma mewn cynhadledd genedlaethol draws-asiantaethol ar y cyd rhwng AAU, ASA a CCAUC ym mis Ebrill 2012. Mae ASA yn cydweithio â'r grŵp prosiect llinyn i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer 2012-13; bydd hon yn cynnwys cynhadledd yng Nghymru ar Fyfyrwyr fel Partneriaid.

### Y Cynllun Iaith Gymraeg

46 Mae ASA wedi cynhyrchu canllawiau hawdd eu darllen i fyfyrwyr a lansiwyd gyda'i Chynllun Iaith Gymraeg diwygiedig, ac mae'n datblygu podlediadau perthnasol.

## Gweithgareddau gwella

47 Ym mis Mai 2011, cyflwynodd ASA ei dull strategol o gefnogi gwelliant a sicrhau ansawdd mewn addysg uwch yng Nghymru. Pwrpas y strategaeth yw helpu ASA i gefnogi gweithgareddau gwella mewn addysg uwch yng Nghymru drwy:

- gysylltu gydag agenda 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' y sector drwy weithgareddau wedi'u huno, yn arbennig gyda'r AAU
- cyfuno gweithgareddau ASA i ddatblygu a chynnal Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) gyda datblygiadau a gweithgareddau yn y sector yng Nghymru
- cyfuno gweithgareddau adolygu ASA a'r canlyniadau gyda gweithgareddau gwella
- edrych yn y tymor hirach ar ryngweithio rhwng polisïau a strategaethau'r sector yng Nghymru a gwaith ASA i gefnogi gwelliant mewn ansawdd.

48 Cafodd y strategaeth ei hardystio gan Bwyllgor Cynghori Cymru ASA ac mae'n cael ei monitro drwy ei chyfarfodydd CLG rheolaidd gyda CCAUC ac AUC.

### Cefnogaeth i'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Ddwyflynyddol

49 Ym mis Ionawr 2010, cyflwynodd CCAUC bolisi ar Fecanweithiau i Gefnogi Gwelliant Cyfleoedd Dysgu. Yn rhan o'r mecanwaith, gweithiodd ASA gyda phartneriaid i ddarparu cefnogaeth i'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Ddwyflynyddol. Mynychodd Pennaeth ASA Cymru a chynrychiolydd o'r Grŵp Ymchwil, Datblygiad a Phartneriaethau (RDP) ASA gyfarfodydd y grŵp llywio ym misoedd Hydref a Thachwedd 2010 a mis Mai 2011. Mae swyddog o Grŵp RDP ASA yn aelod o ddau o'r tri llinyn gwaith (Dysgu mewn Gwaith; Dysgu ar gyfer Gwaith) a mynychodd gyfarfodydd ym misoedd Mawrth a Mehefin 2011. Mae swyddog o Grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd ASA yn aelod o'r llinyn gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid a mynychodd gyfarfod ym mis Mehefin 2011.

50 Mae ASA yn datblygu prosiect i wneud defnydd o, a chyd-fynd â'r astudiaethau achos a ddarperir gan y llinynnau gwaith. Roedd y grŵp llywio llinyn gwaith Dysgu mewn

Gwaith yn cytuno gyda chynnig ASA i gasglu a defnyddio data/gwybodaeth ar gyfer astudiaeth gymharol o fesurau ac arferion arloesol y sefydliadau i sicrhau a gwella ansawdd mewn Dysgu mewn Gwaith. Bydd cynnig tebyg wedi'i wneud i'r grŵp llywio llinyn gwaith Dysgu ar gyfer Gwaith. Bydd canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu Ddwyflynyddol yn 2012.

# Gweithgareddau cefnogi

## Datblygu cynnwys gwefan ASA

51 Ail lansiwyd gwefan ASA ym mis Gorffennaf 2011, gyda chynllun mwy modern a llywio gwell. Roedd cynllun arbennig i'r tudalennau sy'n ymwneud â gwaith ASA yng Nghymru ac roeddent yn dangos baner Cymru. Ers i'r wefan gael ei hail lansio, mae'r cynnwys wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn gyfredol a chywir, ac mae cynnwys newydd wedi'i gyhoeddi ar y we am brosesau'r Adolygiad Sefydliadol (Cymru) a'r Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru.

## Fforwm ar gyfer cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (PSRB)

52 Cynhaliwyd digwyddiadau'r Fforwm PSRB ym misoedd Mai a Thachwedd 2012 ar ryngwladoli a llywio data, yn y drefn honno.

53 Gwahoddwyd y cyrff PSRB dilynol sy'n berthnasol i Gymru i ddod i'r digwyddiadau:

- Cyngor Gofal Cymru
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
- Estyn.

## Cysylltiad gyda chyrff perthnasol eraill

54 Gwelwch baragraffau 44 i 49.

## Helpu gydag ymholiadau gan y sector addysg uwch ac eraill yng Nghymru

55 Yn ystod 2011-12, derbyniodd ASA Cymru nifer o ymholiadau yn uniongyrchol gan y cyhoedd a chan staff mewn sefydliadau addysg uwch. Roedd y rhain yn cynnwys ymholiadau gan fyfyrwyr ynghylch cywerthedd cymwysterau, darpariaeth dramor, ac ymholiadau wedi'u seilio ar anfodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth.

56 Yn ogystal â'r ymholiadau yma, gofynnodd Pennaeth ASA Cymru a Swyddog Gweinyddol y Dull amrywiaeth o gwestiynau yn rhan o'r busnes arferol o gysylltu gyda chysylltiadau sefydliadol.

# Cefnogi, monitro ac adrodd ar weithgareddau ASA

## Tîm Cymru

57 Mae Tîm Cymru'n un o bwyllgorau mewnol ASA, sydd â'r dasg o fonitro, gwerthuso a sicrhau bod ASA yn cyflawni ei hymrwymiadau yng Nghymru. Mae wedi'i gadeirio gan Bennaeth ASA Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o strwythur grwpiau ASA. Mae Tîm Cymru'n cyfarfod yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn. Yn 2011-12, cyfarfu Tîm Cymru yn Hydref 2011, Mawrth 2012 a Gorffennaf 2012.

## Pwyllgor Cynghori Cymru

58 Cyfarfu Pwyllgor Cynghori Cymru ddwywaith yn 2011-12. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2011 a thrafodwyd eitemau yn cynnwys Datganiad

gan y Gweinidog a'r Papur Gwyn yn Lloegr a'i oblygiadau i Gymru. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yn Abertawe ym mis Mai 2012 a thrafodwyd cyfarfod rhwng ASA a'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru, ac ystyriwyd papur ymgynghori CCAULl ar sicrhau ansawdd ar sail risg.

### Codi proffil ASA a sefydlu presenoldeb ffisegol yng Nghymru

59 Yn dilyn nifer o ddatblygiadau mewnol ac allanol, penderfynodd ASA ail edrych ar y syniad o sefydlu presenoldeb ffisegol yng Nghymru. Ar y cychwyn, awgrymwyd hyn gan strategaeth ar gyfer gwella a chryfhau ymgysylltiad ASA yng Nghymru. Ymysg amcanion allweddol y strategaeth roedd cyfathrebu'n glir a sicrhau dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau, cyfraniadau a chyflawniadau ASA, a mabwysiadu dull strategol o wella ansawdd ac ymgysylltu â myfyrwyr yng Nghymru.

60 Yn rhan o'r agwedd strategol hon, cynigiwyd y byddai ASA yn sefydlu presenoldeb ffisegol yng Nghymru. Cefnogwyd y cynnig gan Bwyllgor Cynghori Cymru ASA a chytunodd Bwrdd ASA i'r cynnig. Dros gyfnod yr haf, ystyriwyd nifer o opsiynau a'r canlyniad oedd cytundeb i rannu swyddfa gyda UCM Cymru ym Mae Caerdydd. Agorwyd y swyddfa yn hydref 2012.

### Pennaeth ASA Cymru

61 Mae Pennaeth ASA Cymru wedi cynnal ystod o gyfarfodydd gyda chyrff perthnasol yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

| **Dyddiad** | **Cyfarfod gyda…** |
|---|---|
| 15 Medi 2011 | Pwyllgor Dysgu ac Addysgu AUC |
| 19 Medi 2011 | UCM Cymru |
| 23 Medi 2011 | QAESG CCAUC |
| 5 Hydref 2011 | Cyfarfod CLG gyda CCAUC ac AUC |
| 7 Hydref 2011 | Y Rhwydwaith AU mewn AB |
| 13 Hydref 2011 | Cyfarfod gyda Phrifysgol Cymru |
| 17 Hydref 2011 | BBC Cymru |
| 21 Hydref 2011 | Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol CCAUC |
| 28 Hydref 2011 | Grŵp Llywio Graddau Sylfaen |
| 1 Tachwedd 2011 | Pwyllgor SETQC CCAUC |
| 8 Tachwedd 2011 | Estyn |
| 16 Tachwedd 2011 | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| 12 Rhagfyr 2011 | Estyn - Fforwm Rhanddeiliaid: Y Sector Ôl-16 |
| 10 Ionawr 2012 | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| 12 Ionawr 2012 | CCAUC (Caerloyw) |
| 18 Ionawr 2012 | Cyfarfod CLG gyda CCAUC ac AUC |
| 23 Ionawr 2012 | Cyfarfod ASA/Estyn/CCAUC |
| 24 Ionawr 2012 | Llywodraethu Cymru |
| 26 Ionawr 2012 | Cyfarfod themâu gwelliant AAU |

| | |
|---|---|
| 30 Ionawr 2012 | Digwyddiad ymgynghori ASA ar y Cod Ansawdd, Stadiwm y Mileniwm |
| 9 Chwefror 2012 | Cyfarfod y Fforwm Polisi, Caerdydd |
| 23 Chwefror 2012 | Cynhadledd Astudio Rhan Amser mewn Addysg Uwch CCAUC, Caerdydd |
| 24 Chwefror 2012 | Cyfarfod y Rhwydwaith AU mewn AB, Coleg Sir Gâr, Llanelli |
| 27 Chwefror 2012 | AUC |
| 27 Chwefror 2012 | Digwyddiad ail lansio WISE yn y Senedd, Caerdydd |
| 29 Chwefror 2012 | Digwyddiad Graddau Sylfaen CCAUC, Trefforest |
| 8 Mawrth 2012 | UCM Cymru |
| 13 Mawrth 2012 | Cynulliad a Llywodraeth Cymru, Future Inn, Caerdydd |
| 16 Mawrth 2012 | Prifysgol Morgannwg |
| 19 Mawrth 2012 | Is-grŵp QAESG, Prifysgol Caerdydd |
| 22 Mawrth 2012 | Cyfarfod Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC)/AUC, Prifysgol Abertawe |
| 28 Mawrth 2012 | Cyfarfod CLG gyda CCAUC ac AUC |
| 26 Ebrill 2012 | Cynhadledd Cyfeiriadau'r Dyfodol, Prifysgol Glyndŵr |
| 27 Ebrill 2012 | Diwrnod briffio'r Adolygiad Sefydliadol, Prifysgol Glyndŵr |
| 21 Mai 2012 | Dull Strategol ASA o Gefnogi Gwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (AUC) |
| 28 Mai 2012 | Cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru |
| 30 Mai 2012 | SETQC CCAUC, Caerdydd |
| 1 Mehefin 2012 | Prifysgol Cymru, Caerdydd |
| 8 Mehefin 2012 | Ymweliad dilynol canol cylchred adolygu â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe |
| 21 Mehefin 2012 | Ymweliad dilynol canol cylchred adolygu â Phrifysgol Morgannwg |
| 20 Mehefin 2012 | Cyfarfod Grŵp Llywio Cyfeiriadau'r Dyfodol, Prifysgol Bangor |
| 5 Gorffennaf 2012 | Cyfarfod gyda swyddogion Llywodraethu Cymru |
| 6 Gorffennaf 2012 | Digwyddiad briffio ar Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru, Llandrindod |
| 10 Gorffennaf 2012 | Cyfarfod CLG gyda CCAUC ac AUC |
| 16 Gorffennaf 2012 | Comisiynydd y Gymraeg |
| 18 Gorffennaf 2012 | AAU Cymru |
| 23 Gorffennaf 2012 | Prifysgol Cymru, Casnewydd |

**Tabl 3: Cyfarfodydd yn cynnwys Pennaeth ASA Cymru**

62 Gallwch weld manylion cysylltu Pennaeth ASA Cymru ar:

- www.qaa.ac.uk/contactus/pages/default.aspx
- www.qaa.ac.uk/Wales/Pages/cymru.aspx.

## Amser swyddogion eraill ASA yng Nghymru

63 Yn ogystal â Phennaeth ASA Cymru, mae aelodau eraill o staff ASA wedi bod yn weithgar mewn darparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi adolygiad a gwasanaethau eraill yng Nghymru. Mae'r rhain i'w gweld yn y tabl isod.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| Ionawr 2012 | Gwaith ar y Cod Ansawdd - Rhan C: Gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch, Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd |
| Chwefror 2012 | Gwaith ar y Cod Ansawdd - Rhan C: Gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch, Prifysgol Morgannwg, Pontypridd |
| Ebrill 2012 | Cynhadledd gyntaf Cyfeiriadau'r Dyfodol, Prifysgol Glyndŵr |
| Mehefin 2012 | Gwaith ar y Cod Ansawdd - *Pennod B3: Dysgu ac addysgu*, Caerdydd |

**Tabl 4: Amser swyddogion eraill ASA yng Nghymru**

## Cynllun swyddogion cyswllt

64 Mae ASA yn gweithredu cynllun lle mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru'n cael swyddog cyswllt i ddarparu pwynt cysylltu uniongyrchol ar gyfer ystod eang o faterion sicrhau ansawdd y tu allan i brosesau adolygu ffurfiol. Nid yw'r swyddog cyswllt yn ymweld â sefydliad o anghenraid, ond mae'n gyfrifol am ymateb i ymholiadau a godir gan sefydliadau.

## Cyhoeddiadau (Cymru yn unig)

65 Yn 2011-12, datblygodd ASA nifer o gyhoeddiadau sy'n benodol berthnasol i Gymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl isod.

| Dyddiad | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Mawrth 2012 | *Cefnogi siaradwyr Cymraeg drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg* |
| Mawrth 2012 | *Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru*, *Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru: Arweiniad i brif gynrychiolwyr myfyrwyr* a *Chanllawiau bach: arweiniad byr i fyfyrwyr am yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru* |
| Mai 2012 | *Y Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol (Cymru) 2012* |

**Tabl 5: Cyhoeddiadau Cymru'n unig**

## Y Cynllun Iaith Gymraeg

66 Ym mis Mawrth 2012, cyflwynodd ASA ei Chynllun Iaith Gymraeg diwygiedig i Gomisiynydd y Gymraeg i'w ail-gymeradwyo.

67 Ar hyn o bryd mae gan ASA bedwar gweithiwr sydd â lefelau gallu amrywiol yn yr iaith Gymraeg. Mae Tabl 6 yn nodi gwaith cyfieithwyr yn 2011-12 dan delerau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

| Dyddiad | Math |
|---|---|
| Medi 2011 | Prifysgol Abertawe: Adroddiad dilyniant canol cylchred<br>Prifysgol Caerdydd: Adroddiad dilyniant canol cylchred<br>Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd: Adroddiad dilyniant canol cylchred |
| Hydref 2011 | Cynnwys y we: adroddiadau monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Hydref 2011 | Eitem newyddion am Brifysgol Cymru |
| Hydref 2011 | Ychwanegiadau i restr termau ar-lein ASA |
| Hydref 2011 | Newidiadau ac ychwanegiadau i we-dudalennau am y Cynllun Pryderon |
| Hydref 2011 | Templed ar gyfer ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth |
| Hydref 2011 | Llythyr at ITV Cymru |
| Tachwedd 2011 | Gohebiaeth a ffurflen ar yr Adolygiad o Raddau Sylfaen yng Nghymru ar gyfer yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru |
| Tachwedd 2011 | *Adroddiad blynyddol i CCAUC ac AUC 2010-11* |
| Tachwedd 2011 | Gohebiaeth at Brifysgol Cymru am gais BITEC |
| Tachwedd 2011 | Gohebiaeth ar y Llawlyfr Graddau Sylfaen i UCM Cymru |
| Ionawr 2012 | Cynnwys y we: Dulliau adolygu ASA; Prifysgol Fetropolitan Caerdydd |
| Chwefror 2012 | *Adolygiad sefydliadol i sicrhau gwelliant (ELIR) (Yr Alban) ac Adolygiad Sefydliadol (Cymru): Y drefn apeliadau* |
| Chwefror 2012 | Cynnwys y we: Y Drefn Gwyno; CCAUC |
| Chwefror 2012 | *Adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithredu Cynllun Iaith Gymraeg ASA (2011)* |
| Mawrth 2012 | Ychwanegiadau i restr termau ar-lein ASA |
| Mawrth 2012 | Cylchlythyr 05/12 |
| Mawrth 2012 | Deunyddiau ar gyfer ymgynghoriad ar Raddau Sylfaen |
| Mawrth 2012 | *Y Cynllun Iaith Gymraeg 2012-15* |
| Ebrill 2012 | Newidiadau ac ychwanegiadau i gynnwys y we: gwaith ASA yng Nghymru |
| Ebrill 2012 | Ychwanegiadau i restr termau ar-lein ASA |
| Mai 2012 | Cynnwys y we: adroddiadau monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg |
| Mai 2012 | *Adolygiad Sefydliadol (Cymru): Llawlyfr 2012* |
| Mai 2012 | Logo QAA/ASA |
| Mehefin 2012 | Cynnwys y we: Dull yr Adolygiad Sefydliadol (Cymru) |
| Gorffennaf 2012 | Deunyddiau ar gyfer digwyddiad briffio ar Raddau Sylfaen |
| Gorffennaf 2012 | Cynnwys y we: Dull adolygu Graddau Sylfaen |
| Gorffennaf 2012 | Gohebiaeth ar Gynllun Trwyddedu'r Logo, a'r telerau a'r amodau |

**Tabl 6: Cyhoeddiadau a gohebiaeth yn yr iaith Gymraeg**

68 Yn ogystal â'r cyfieithiadau uchod, cafodd 14 darn byr o destun eu cyfieithu o fewn y sefydliad gan Swyddog Iaith Gymraeg ASA sy'n siarad Cymraeg, a chyfieithwyd ychydig bach o destun gan wasanaeth cyfieithu am ddim Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

# Edrych ymlaen at 2012-13

## Y rhaglen o wasanaethau rhwng 1 Awst 2012 a 31 Gorffennaf 2013

### Cyffredinol:

- Gwneud ymweliadau cyswllt â phob un o'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i drafod materion sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd a safonau academaidd.
- Cynnal y trefniadau ar gyfer cysylltu â sefydliadau addysg bellach sydd â phortffolio addysg uwch.
- Mynd i gyfarfodydd pwyllgorau perthnasol, megis Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd CCAUC a'r Gweithgor QAESWG.
- Mynd i gyfarfodydd penodol fel y cytunwyd gyda CCAUC ac/neu AUC
- Cysylltu â chyrff perthnasol, er enghraifft AAU.
- Gweithio gyda CCAUC, AUC a'r sector addysg uwch ar y FfCChC a datblygiadau mewn materion sy'n ymwneud â chredydau ar draws y DU.
- Gweithio gyda chyrff PSRB i leihau dyblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i addysg uwch.
- Helpu gydag ymholiadau gan y sector addysg uwch ac eraill yng Nghymru.
- Darparu adroddiad dair gwaith y flwyddyn i gyfarfodydd CLG gyda CCAUC ac AUC.
- Darparu adroddiad blynyddol ym mis Hydref 2013 i CCAUC ac AUC.
- Sicrhau bod polisïau, arferion, cyhoeddiadau ac adroddiadau ASA yn cymryd i ystyriaeth yr ystod gyfan o weithgareddau, materion a pholisïau cysylltiedig yng Nghymru.
- Darparu aelod o staff i weithredu fel Swyddog Cymru ASA, a fydd ar gael ar gyfer ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â Chymru a gweithio gyda chydweithwyr ASA eraill, fel y bo'n briodol, i gyflawni gofynion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
- Cynnwys manylion argaeledd Swyddog Cymru yng nghyhoeddiadau ASA sy'n rhoi manylion cyswllt cyffredinol.
- Cyflawni gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun a chynllun sefydliadau addysg uwch a CCAUC, gan gynnwys sicrhau bod ASA yn cynnal gallu sefydliadol priodol yn yr iaith Gymraeg.
- Bod â pholisi cyfle cyfartal addas, datblygu datganiad cydraddoldeb sengl, ac ystyried gofynion Cynllun Cydraddoldeb CCAUC, gan chwilio am gyfleoedd i hybu cydraddoldeb yn unol â'r gofynion a wneir ar gynghorau cyllido'r DU.

### Proses Adolygiad Sefydliadol (Cymru):

- Ystyried newidiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol, os yw'n briodol.
- Gweithredu'r broses Adolygiad Sefydliadol ddiwygiedig (a gwneud un Adolygiad Sefydliadol ym Mhrifysgol Glyndŵr).
- Cynnwys o leiaf un aelod ymhob tîm ar gyfer Adolygiadau Sefydliadol (Cymru) sydd â gwybodaeth a/neu arbenigedd yn y sector addysg uwch yng Nghymru.
- Darparu o leiaf un adolygwr sy'n siarad Cymraeg ar dîm os bydd y sefydliad yn gofyn am hynny.
- Cynllunio ar gyfer Dilyniannau Canol Cylchred Adolygu yn 2013-14.
- Gwneud Adolygiadau Datblygiadol o Raddau Sylfaen.
- Darparu hyfforddiant i adolygwyr ASA ar ofynion a manylebau'r broses Adolygiad Sefydliadol i Gymru, gan gynnwys rôl Prifysgol Cymru, lle bo'n briodol.
- Darparu cefnogaeth benodol i sefydliadau sy'n paratoi ar gyfer ymweliadau Adolygiad Sefydliadol, gan gynnwys digwyddiad briffio cychwynnol.
- Gweithredu unrhyw newidiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol yn unol â'r protocolau a ddisgrifir yn y llawlyfr.

- Rhoi i swyddogion cyswllt CCAUC ac AUC, yn gyfrinachol, gopïau o lythyrau gan ASA at y sefydliad addysg uwch ynglŷn â chanlyniadau drafft a therfynol yr Adolygiad Sefydliadol, a chasgliadau'r Dilyniant Canol Cylchred Adolygu a dilyniannau eraill i adolygiadau wrth i'r rhain godi.
- Gweithredu cynllun ar gyfer ymchwilio pryderon am addysg uwch y DU.

**Ymgysylltiad â'r myfyrwyr:**

- Cynnwys adolygwr sy'n fyfyriwr yn aelod llawn o dimau adolygu.
- Gweithio gydag eraill i ddarparu gwybodaeth fwy eglur am ansawdd a safonau i fyfyrwyr.
- Gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu rôl myfyrwyr mewn rheoli ansawdd sefydliadol.
- Cefnogi WISE ac ymgysylltiad myfyrwyr mewn prosesau ansawdd.

**Gwella ansawdd:**

- Gweithio gyda CCAUC, AUC a'r sector addysg uwch ar faterion gwella ansawdd sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.
- Gwerthuso'r trefniadau ar gyfer gwneud Adolygiad Sefydliadol ar sail ffurfiannol barhaus.
- Cynnal digwyddiad ar sicrhau a gwella ansawdd yng Nghymru, gan adeiladu ar y themâu 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'.
- Parhau i gefnogi ac ystyried datblygiad yr agwedd o wella ansawdd mewn addysg uwch yng Nghymru.

# Atodiad A: Dadansoddiad o'r gwariant (2011-12)

## Dadansoddiad o'r gwariant gwirioneddol o'i gymharu â'r gyllideb 2011-12

| Y Gwariant | Y Gyllideb (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Y Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|
| Costau adolygu | 71,416 | 73,510 | 2,094 |
| Costau Mynediad i AU | 1,324 | 1,331 | 7 |
| Costau tramor | 917 | 1,119 | 202 |
| Costau Talu'r Grŵp Adolygu (Cymru) | 80,175 | 80,175 | 0 |
| Costau cymorth Cymru | 3,055 | 5,641 | 2,586 |
| Costau cyffredinol Mynediad i AU | 1,219 | 1,248 | 29 |
| Costau'r Grŵp Ymgysylltiad Cyhoeddus | 53,790 | 50,861 | - 2,929 |
| Costau taliadau'r rhwydwaith mewnol | 165,203 | 168,108 | 2,905 |
| Costau'r rhwydwaith mewnol nad ydynt yn ymwneud â chyflog | 107,836 | 126,241 | 18,405 |
| **Cyfanswm y gwariant** | **484,935** | **508,234** | **23,299** |

| Incwm | Y Gyllideb (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Y Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|
| Dyrannu pwerau dyfarnu graddau | 2,664 | 2,993 | 329 |
| CLG 2011-12 | 223,928 | 223,928 | 0 |
| Anfonebu am hyfforddiant ar gyfer Adolygiad o Raddau Sylfaen a Materion sy'n Achosi Pryder | 0 | 7,401 | 7,401 |
| Incwm arall - yn cynnwys tanysgrifiadau, cyhoeddiadau ac incwm buddsoddi | 263,670 | 264,506 | 836 |
| **Cyfanswm Incwm** | **490,262** | **498,828** | **8,566** |

| | Y Gyllideb (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Y Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm heb ei gyllido/ y diffyg** | **- 5,327** | **9,406** | **14,733** |

**Tabl 7: dadansoddiad o'r gwariant gwirioneddol o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer ASA Cymru 2011-12**

**QAA 518 03/13**

**Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch**

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

| | |
|---|---|
| Ffôn | 01452 557000 |
| Ffacs | 01452 557070 |
| Ebost | comms@qaa.ac.uk |
| Gwefan | www.qaa.ac.uk |

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2013

ISBN 978 1 84979 827 3

Mae holl gyhoeddiadau ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk.

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786